

Deintydd

Cyflwyniad

Fel Deintydd, byddwch yn gwneud diagnosis o bydredd dannedd a chlefyd y deintgig, yn eu trin ac yn eu hatal. Byddwch yn cynnal 'archwiliadau' rheolaidd, yn drilio, yn paratoi ac yn llenwi rhannau o'r dannedd sydd wedi pydru (tyllau), yn gosod dannedd gosod a dyfeisiau eraill, yn glanhau dannedd, yn tynnu dannedd sydd wedi pydru ac yn rhoi cyngor ar hylendid y geg. Byddwch hefyd yn cywiro dannedd cam, yn enwedig ymysg plant



Gweithgareddau Gwaith

Rhan fawr o'ch gwaith fel Deintydd yw atal pydredd dannedd a chlefyd y deintgig. Byddwch yn gweld cleifion am 'archwiliadau' rheolaidd i sicrhau nad oes problemau'n codi.

Byddwch hefyd yn addysgu eu cleifion am hylendid y geg, er enghraifft, sut mae brwsio dannedd yn iawn a defnyddio fflos dannedd, a phwysigrwydd osgoi gormod o siwgr yn y diet.

Pan fydd problem gan glaf, bydd yn rhaid i chi wneud diagnosis yn gyntaf. Byddwch yn astudio nodiadau ar hanes deintyddol y claf ac yn archwilio ei ddannedd a'i geg, gan ddefnyddio pelydrau X weithiau. Byddwch hefyd yn gofyn cwestiynau i'r claf er mwyn cael gwybod beth yw'r symptomau, er enghraifft, pryd a ble mae'n teimlo poen.

Mae triniaeth arferol nodweddiadol yn cynnwys:

- tynnu cen oddi ar ddannedd a'u glanhau
- drilio, paratoi a llenwi tyllau
- tynnu dannedd sydd wedi pydru neu ddannedd septig.

Byddwch yn trin dannedd afreolaidd, yn enwedig ymhlith plant, drwy osod dyfeisiau fel bresys. Byddwch yn gosod corunau, pontydd a dannedd gosod yn lle dannedd cyfan neu rannau o ddannedd.

Mae deintyddion yn gweithio fel rhan o dîm. Bydd nyrsys deintyddol yn eich helpu yn ystod triniaeth, er enghraifft, drwy estyn offerynnau, gwneud nodiadau a chymysgu deunyddiau ar gyfer llenwadau. Efallai hefyd y byddwch yn cyfarwyddo neu'n goruchwylio gwaith Hylenyddion Deintyddol a Therapyddion Deintyddol.

Byddwch yn gweithio gyda dyfeisiau (fel dannedd gosod a phontydd) sydd wedi'u gwneud iddyn nhw gan Dechnegydd Deintyddol.

Mae'r rhan fwyaf o Ddeintyddion yn gweithio fel ymarferwyr deintyddol cyffredinol yn yr hyn sy'n cael ei alw hefyd yn ddeintyddfa 'stryd fawr'. Mae'r rhan fwyaf o'r ymarferwyr hyn yn gweld cymysgedd o gleifion preifat a chleifion y GIG.

Efallai y byddwch yn ymweld â chleifion yn eu cartrefi eu hunain, neu mewn mannau fel ysgolion, canolfannau dydd a chartrefi gofal preswyl.

Efallai y gall darllen, ysgrifennu a siarad Cymraeg fod o fantais i chi wrth chwilio am waith yng Nghymru.

Rhinweddau Personol a Sgiliau

I ddod yn Ddeintydd, byddwch angen:

- sgiliau cyfathrebu: rhaid eich bod yn gallu gofyn cwestiynau ac egluro pethau'n glir
- natur garedig, drugarog i dawelu meddyliau cleifion nerfus
- bod yn dda gyda'ch dwylo a gallu defnyddio amrywiaeth o offer a chyfarpar
- amynedd a sylw i fanylion
- stamina a ffitrwydd corfforol - mae'r gwaith yn gallu bod yn flinedig
- diddordeb a gallu mewn gwyddoniaeth

Mae angen sgiliau rheoli busnes a sgiliau arwain tîm ar ddeintyddion mewn practis cyffredinol.

Cyflog a Chyfleoedd

Cyflog Mae'r rhan fwyaf o Ddeintyddion mewn practis cyffredinol yn hunangyflogedig. Byddwch fel arfer yn ymuno fel partner mewn deintyddfa sefydledig, gan brynu rhan o ddeintyddfa yn y pen draw neu sefydlu eu deintyddfa eu hunain. Mae cyflogau'n dibynnu ar y math o ddeintyddfa a pha mor llwyddiannus yw hi. Mae'r cyfraddau cyflog isod yn rhai bras.

- Cychwynnol: £36,500 - £46,000
- Gyda phrofiad: £39,000 - £73,000
- Uwch Ddeintyddion yn ennill £77,000 - £103,500

Oriau gwaith Mae'r rhan fwyaf o Ddeintyddion mewn ymarfer cyffredinol, a'r rheini sy'n gweithio yn y gymuned, yn gweithio 9:00 am - 5:30 pm, ddydd Llun i ddydd Gwener. Efallai hefyd y byddwch yn gweithio ar ddyddiau Sadwrn ac yn darparu gofal brys 24 awr. Mewn ysbytai, mae oriau gwaith yn amrywio gan ddibynnu ar eich arbenigedd - gallent gynnwys gwaith gyda'r nos ac ar y penwythnos. **Ble allwn i weithio?** Mae Deintyddion yn gweithio mewn practis cyffredinol, yn y GIG (mewn ysbytai ac yn y gymuned) ac yn y lluoedd arfog. Mae cyfleoedd i Ddeintyddion mewn trefi, dinasoedd ac ardaloedd gwledig ledled y DU. **Hunangyflogaeth** Mae'r rhan fwyaf o Ddeintyddion yn hunangyflogedig mewn practis cyffredinol, gan ddarparu gofal dan y GIG neu'n breifat. Mae'r rhan fwyaf o ddeintyddion yn cynnig gwasanaeth y GIG a gwasanaeth preifat. **Ble mae swyddi yn cael eu hysbysebu?** Mae swyddi yn cael eu hysbysebu ar wefan Swyddi'r GIG, mewn cylchgronau proffesiynol, ac ar fyrddau swyddi arbenigol a chyffredinol.

Llwybrau Mynediad a Hyfforddiant

Llwybrau mynediad

I fod yn Ddeintydd, fel arfer mae angen i chi gwblhau pum mlynedd o gwrs gradd mewn deintyddiaeth.

Mae rhai prifysgolion yn cynnal cyrsiau deintyddiaeth gyda blwyddyn 'cyn-ddeintyddol' ychwanegol i fyfyrwyr sydd heb y cymwysterau Safon Uwch gwyddoniaeth sy'n ofynnol ar gyfer mynediad.

Mae nifer fechan o brifysgolion yn cynnal pedair blynedd o gyrsiau mynediad i raddedigion. I gael lle, bydd angen gradd arnoch fel arfer (o leiaf 2:1 fel arfer) mewn pwnc biofeddygol, gwyddoniaeth neu ofal iechyd. Mae gofynion mynediad yn amrywio, felly holwch y brifysgol y mae gennych ddi-ddordeb ynddi.

Mae cyrsiau gradd yn ymdrin â meysydd fel anatomeg, biocemeg, ffisioleg, patholeg a deunyddiau deintyddol. Mae'r rhain yn cael eu cyfuno â datblygu sgiliau clinigol yn yr holl ddisgyblaethau deintyddol.

Ar ôl graddio, rhaid i chi gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol cyn i chi allu dechrau gweithio fel Deintydd.

Hyfforddiant

Bydd angen i chi ddilyn eich gradd gyda'r Rhaglen Sylfaen Ddeintyddol/Hyfforddiant Galwedigaethol. Hyfforddiant perthnasol i waith yw hwn mewn deintyddfa gymeradwy.

Mae Blwyddyn Sylfaen / Hyfforddiant Galwedigaethol 1 (DF1) fel arfer yn digwydd mewn ymarfer deintyddol cyffredinol. Mae'r flwyddyn hon yn angenrheidiol i unrhyw raddedig o'r DU sy'n dymuno gweithio yn neintyddiaeth y GIG.

I'r rhan fwyaf o ddeintyddion sylfaen, mae Blwyddyn Sylfaen 2 (DF2) yn cynnwys swyddi 6- neu 12-mis mewn ysbyty neu yn y Gwasanaeth Deintyddol Gofal Sylfaenol ar Gyflog. Mae rhai rhaglenni'n cynnwys profiad mewn gofal sylfaenol cyffredinol. Nid yw'r ail flwyddyn hon yn hanfodol ac mae'n aml yn cael ei gwneud gan ddeintyddion sydd am barhau i lwybr hyfforddiant arbenigol fel llawdriniaeth y geg.

Camu ymlaen yn eich gyrfa

Ar ôl gwneud Hyfforddiant Galwedigaethol neu Hyfforddiant Sylfaen Ddeintyddol, mae deintyddion fel arfer yn ymuno â phractis fel cysylltai (sy'n cael ei alw hefyd yn 'berfformiwr' yn y GIG yng Nghymru a Lloegr). Fel arfer mae cysylltai'n hunangyflogedig; mae rhai practisiau'n cyflogi cynorthwyr. Ar ôl cael profiad, mae llawer cysylltai'n dewis bod yn berchennog ar bractis drwy brynu practis oddi ar ddeintydd sy'n ymddeol neu brynu rhan o bractis sefydledig fel partner.

Y Ddeddf Adsefydlu Troseddwy

Mae'r yrfa hon yn eithriad i'r Ddeddf Adsefydlu Troseddwy'r 1974. Mae hyn yn golygu bod rhaid i chi roi gwybodaeth i gyflogwr am unrhyw gollfarnau, rhybuddiadau, ceryddon neu rybuddion sydd wedi darfod neu sydd heb ddarfod, os bydd yn gofyn i chi am wneud hynny.

Mae hyn yn wahanol i yrfaeodd eraill, lle mae'n rhaid i chi ddatgelu gwybodaeth am gollfarnau sydd heb ddarfod yn unig, os gofynnir i chi wneud hynny.

Cymwysterau

I gael lle ar gwrs gradd mewn deintyddiaeth, y gofyniad arferol lleiaf yw:

- 3 Safon Uwch gyda chemeg a bioleg fel arfer yn hanfodol
- TGAU gradd C/4 ac uwch yn eich pynciau Safon Uwch
- 2/3 TGAU (A*-C neu 9-4) pellach, yn cynnwys Saesneg, mathemateg, cemeg, ffiseg, a bioleg

Gall cymwysterau cyferwerth, fel Diploma'r Fagloraeth Ryngwladol, fod yn dderbyniol ar gyfer mynediad. Gwiriwch wefannau colegau/prifysgolion yn ofalus iawn. Gallai BTEC lefel 3 hefyd fod yn dderbyniol ar gyfer mynediad. Fodd bynnag, bydd rhai prifysgolion ond yn derbyn y rhain ochr yn ochr â'r cymwysterau Safon Uwch academaidd penodedig. Eto, gwiriwch wefannau colegau/prifysgolion yn ofalus. Mae ambell brifysgol yn cynnig blwyddyn gyn-ddeintyddol i fyfyrwyr sydd heb y pynciau Safon Uwch gwyddonol gofynnol. Mae hyn yn gwneud y cwrs gradd yn chwe blynedd o hyd, yn hytrach na phump. Ar gyfer y rhan fwyaf o gyrsiau deintyddiaeth, bydd angen i chi sefyll Prawf Dawn Glinigol y DU (UKCAT), yn ogystal ag ymgeisio drwy UCAS. Nid prawf gwybodaeth yw UKCAT ond yn hytrach mae wedi'i ddylunio i sicrhau bod gennych y galluoedd meddyliol, yr agweddau a'r ymddygiad proffesiynol priodol i fod yn ddeintydd. Os ydych yn ymgeisio am ysgol ddeintyddol prifysgol sy'n defnyddio UKCAT, yn ddelfrydol dylech sefyll y prawf cyn i chi ymgeisio i'r ysgol drwy UCAS. Ewch i wefan UKCAT i gael rhagor o wybodaeth. Bydd angen i chi sefyll prawf GAMSAT y DU os ydych yn ymgeisio am rai cyrsiau deintyddiaeth pedair blynedd i raddedigion. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan GAMSAT. Mae rhai prifysgolion yn derbyn cymhwyster Bagloraeth Cymru yn gyferwerth ag un Safon Uwch.

Cyfleoedd i Oedolion

Terfynau oedran

Mae'n anghyfreithlon i unrhyw sefydliad bennu terfynau oedran ar gyfer mynediad i waith, addysg neu hyfforddiant, oni bai eu bod yn gallu dangos bod gwir angen am y terfynau hyn.

Cyrsiau

Os nad oes gennych y cymwysterau sydd eu hangen fel arfer i wneud gradd ddeintyddiaeth, efallai y byddwch yn gallu dechrau un ar ôl cwblhau cwrs Mynediad, fel Mynediad at Wyddoniaeth. Fel arfer, nid oes angen unrhyw gymwysterau arnoch i wneud hwn, ond dylech holi darparwr y cwrs i wneud yn siwr.

Mae rhai prifysgolion yn cynnig blwyddyn gyn-ddeintyddol i fyfyrwyr sydd heb y cymwysterau Safonau Uwch gofynnol mewn gwyddoniaeth. Mae hyn yn gwneud y cwrs gradd yn chwe blynedd o hyd yn hytrach na phump.

Mae graddedigion sydd â graddau (o leiaf gradd 2:1) mewn pynciau perthnasol, er enghraifft, gwyddorau bywyd neu feddygol, yn gallu mynd i ysgol ddeintyddol. Mae modd cael lle gyda phwnc gradd amherthnasol ond, fel arfer, dim ond gyda chymwysterau Safon Uwch da mewn gwyddoniaeth neu gymwysterau cywerth, gan gynnwys Bioleg a Chemeg.

Mae nifer fechan o brifysgolion yn cynnal pedair blynedd o gyrsiau mynediad graddedig. I gael lle, bydd angen gradd arnoch fel arfer (2:1 o leiaf) mewn pwnc biofeddygol, gwyddoniaeth neu gysylltiedig ag iechyd. Mae gofynion mynediad yn amrywio, felly holwch y brifysgol y mae gennych ddi-ddordeb ynddi.

Cyllid

Mae myfyrwyr heb radd yn gallu hawlio benthyciadau myfyrwyr i dalu eu costau cynhaliaeth a'u ffioedd dysgu yn y pedair blynedd gyntaf. O'r bumed flwyddyn ymlaen, bydd y ffioedd dysgu'n cael eu talu gan gynllun bwrsariaeth myfyrwyr y GIG, a gall myfyrwyr wneud cais am fwrsariaeth y GIG sy'n dibynnu ar brawf modd i dalu costau cynhaliaeth. Mae myfyrwyr hefyd yn gallu hawlio £1,000 o grant heb brawf modd, yn rhan o ddyfarniad bwrsariaeth y GIG.

Mae'r trefniadau'n wahanol i fyfyrwyr graddedig deintyddiaeth sydd ar gwrs pum mlynedd. Nid yw'r myfyrwyr yn gymwys i gael grant am gostau cynhaliath na ffioedd dysgu yn ystod y pedair blynedd gyntaf. Fodd bynnag, gall y myfyrwyr ymgeisio am fenthyciad cynhaliath llawn, ac yn y bumed flwyddyn, mae myfyrwyr graddedig deintyddiaeth yn cael yr un cymorth cyllid â myfyrwyr meddygol is-raddedig.

Mae rhaid i raddedigion ar gyrsiau carlam pedair blynedd ariannu eu ffioedd dysgu llawn yn y flwyddyn gyntaf. Fodd bynnag, bydd cynllun bwrsariaeth y GIG yn talu £3,465 wedyn tuag at ffioedd dysgu am yr ail flwyddyn ymlaen.

Ystadegau

- Mae 82% o ddeintyddion yn hunangyflogedig.
- Mae 11% yn gweithio rhan-amser.
- Mae 6% o weithwyr yn gweithio dros dro.

Gwybodaeth Bellach

Sefydliadau proffesiynol

Mae gan sefydliadau proffesiynol y rolau canlynol:

- Cefnogi eu haelodau.
- Diogelu'r cyhoedd drwy gadw'r safonau'n uchel yn eu proffesiynau.

I gael gwybod rhagor am y sefydliad(au) sy'n berthnasol i'r yrfa hon, trowch at y cysylltiadau isod.

Cysylltiadau

- **NHS Careers**
Gwefan <http://www.weds.wales.nhs.uk/contact-nhs-wales-careers/>
- **NHS Wales Careers Information**
Publisher: National Leadership and Innovation Agency for Healthcare
E-bost abm.wedsteam@wales.nhs.uk
Gwefan www.wales.nhs.uk/sitesplus/829/page/36090
- **NHS Jobs**
Gwefan www.jobs.nhs.uk
- **Step into the NHS**
NHS careers
Ffôn 0345 6060655
Gwefan www.stepintohenhs.nhs.uk
- **Skills for Health**
Skills for the health sector
Cyfeiriad Goldsmiths House, Broad Plain, Bristol BS2 0JP
Ffôn 0117 9221155
E-bost office@skillsforhealth.org.uk
Gwefan www.skillsforhealth.org.uk
- **Queen's University Belfast**
Irish enquiries
Gwefan www.qub.ac.uk
- **NHS Education for Scotland (NES)**
Scottish enquiries
Cyfeiriad Westport 102, West Port, Edinburgh EH3 9DN
Ffôn 0131 6563200
E-bost enquiries@nes.scot.nhs.uk

Gwefan www.nes.scot.nhs.uk

- **British Dental Association (BDA)**
Cyfeiriad 64 Wimpole Street, London W1G 8YS
Ffôn 020 7935 0875
E-bost enquiries@bda.org
Gwefan www.bda.org
- **General Dental Council (GDC)**
Cyfeiriad 37 Wimpole Street, London W1G 8DQ
Ffôn 0845 2224141
Gwefan www.gdc-uk.org
- **British Dental Association (BDA) Scotland**
Scottish enquiries
Cyfeiriad Forsyth House, Lomond Court, Castle Business Park, Stirling FK9 4TU
Ffôn 01786 476040
E-bost enquiries@bda.org
Gwefan scotland.bda.org
- **Northern Ireland Medical and Dental Training Agency (NIMDTA)**
Irish enquiries
Cyfeiriad Beechill House, 42 Beechill Road, Belfast BT8 7RL
Ffôn 028 9040 0000
E-bost nimdta@nimdta.gov.uk
Gwefan www.nimdta.gov.uk
- **UK Clinical Aptitude Test (UKCAT)**
Ffôn 0161 8557409
E-bost ukcatcustomerservices@pearson.com
Gwefan www.ukcat.ac.uk
- **Graduate Medical School Admissions Test (GAMSAT)**
Ffôn 020 3829 5924
E-bost unitedkingdom@acer.org
Gwefan www.gamsatuk.org
- **UK Committee of Postgraduate Dental Deans and Directors (COPDEND)**
Cyfeiriad The Triangle, Roosevelt Drive, Headington, Oxford OX3 7XP
Ffôn 0114 2264437
Gwefan www.copdend.org
- **Getting into Dental School**
Author: Adam Cross Publisher: Trotman
- **People Exchange Cymru (PEC)**
Public sector recruitment portal for Wales
E-bost peopleexchangecymru@gov.wales
Gwefan www.peopleexchangecymru.org.uk/home

Gyrfaoedd sy'n gysylltiedig

- Nyrs Ddeintyddol
- Technegydd Deintyddol
- Hylenydd Deintyddol
- Therapydd Deintyddol
- Orthodontydd
- Periodontydd